# BREEZE, EVAN (1798 - 1855), bardd

**Enw:** Evan Breeze
**Dyddiad geni:** 1798
**Dyddiad marw:** 1855
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Elwyn Evans

Ganwyd yn Nôl Hywel, plwyf Llangadfan, Sir Drefaldwyn - yr oedd yn  yr i William Jones o'r un lle. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes fel ysgolfeistr a bu hefyd yn pregethu gyda'r Wesleaid.

Ei enw barddol oedd Ieuan Cadfan. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o ganeuon, y rhan fwyaf ohonynt yn garolau ac yn gerddi crefyddol. Un o'r cyfrolau oedd *Yr Odlydd Cysurus, Cyfaill i'r trallodusyn cynnwys amrywiol ddyriau, cofiant am rai anwylion ... carolau ... emynau, etc.* (H. Jones, Llanrwst, 1839). Bu farw yn Llanerfyl ar 3 Ebrill 1855, ac yno y claddwyd ef.

## Awdur

**Elwyn Evans**

## Ffynonellau


R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

Rhestr y Plwyf


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732671

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu